# Ffederasiwn Ysgolion Casmael a Llanychllwydog

## Cynllun Datblygu Ysgol 2024-2025/ School Development Plan 2024-25

| MA/IA | Blaenoriaethau CDY 2024-25/ *SDP Priorities 2024-25* | Tystiolaeth/ Evidence | Arweinydd / Leader | Llywdoraeth-wr cyswllt/ Link Governor |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Blaenoriaeth 1/Objective 1 -Casmael<br><br>**Darparu cyfleoedd o ansawdd uchel i bob disgybl ddefnyddio, datblygu ac ymgorffori eu medrau llafar yn y Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd**<br>*Provide rich and meaningful opportunities for all pupils to use, develop and incorporate their oral skills in Welsh within a variety of situations* | Teithiau Dysgu/Learning Walks | E.P | M.P |
| 1 | Blaenoriaeth1/Objective1-Llanychllwydog<br><br>**Darparu cyfleoedd o ansawdd uchel i bob disgybl ddefnyddio, datblygu ac ymgorffori eu medrau ysgrifennu mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd**<br>*Provide high quality opportunities for all pupils to use, develop and incorporate their writing skills across a variety of situations* | Craffu ar Waith/Book Scrutiny | M.F | M.P |
| 1 | Blaenoriaeth 2/Objective 2 –<br><br>**Gwella medrau cyfrifo disgyblion, gan ganolbwyntio ar ddysgu tablau lluosi.**<br>*To improve pupils' calculation skills, concentrating on mastering the times tables* | Profion gweithdrefnol/ Procedural tests. | S.J/R.E | B.V |
| 2 | Blaenoriaeth 3/Objective 3 –<br><br>**Datblygu systemau a strategaethau effeithiol i gefnogi lles a chynhwysiant staff a disgyblion y ffederasiwn.**<br>*Develop effective systems and strategies to support the welbeing and inclusion of the federation's staff and pupils.* | Data presenoldeb/Attendance data<br>Ymweliad Diogelu/ Safeguarding Visit<br>SHRN | S.G/M.L-J | G.E, S.G, K.D |
| 1 | Blaenoriaeth 4/Objective 4 -<br><br>**Sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion datblygu eu sgiliau digidol.**<br>*Ensure valuable opportunities are given for pupils to develop their digital skills.* | Craffu ar waith/Work Scrutiny | R.E, J.J, S.B | M.W |
| 1 | Blaenoriaeth 5/Objective 5 -<br><br>**Gwella'r cynllunio ar gyfer CG a M er mwyn sicrhau ymrediad cyfoethog ac eang o brofiadau.**<br>*Improve the planning for RVE in order to ensure a rich and varied range of experiences.* | Craffu ar waith/Dathliad CG a M Work Scrutiny/RVE Celebration | A.L | M.P |

| | |
|---|---|
| **1. Casmael**<br>**Darparu cyfleoedd o ansawdd uchel i bob disgybl ddefnyddio, datblygu ac ymgorffori eu medrau llafar yn y Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd**<br>• Datblygu egwyddorion y Siarter Iaith ymhellach i hyrwyddo'r Gymraeg yn gyson ar draws yr Ysgol. Gweithgareddau i gynnwys: Gwasanaeth Gwobrwyo, Idiom y Mis, Ymwelwyr CymraegMiwsig Cymraeg,Diwrnod Shwmae – trefnu g weithgaredd ar y cyd fel Ffederasiwn – Criw Cymreictod i drefnu, rhannu gwybodaeth am waith Siarter Iaith gyda rhieni a Llywodraethwyr – pwrpas a chamau gweithredu, Murlun Siarter Iaith yn dangos camau gweithredu, ein nod a lluniau digwyddiadau i hybu Cymreictod, cornel Siarter iaith ym mhob dosbarth er mwyn dathlu band y mis ac yn y blaen, creu brawddeg yr wythnos i rieni, creu heriau y mis fel Ffederasiwn – rhannu gyda rhieni, dathlu diwrnodau arbennig – Waldo, Shwmae, Dydd Gwyl Dewi, Dyd Santes Dwynwen ayb, cynnal boreau coffi a sgwrs bob hanner tymor i'r gymuned gyda'r plant yn arwain y cyfan, creu llyfryn i rieni ac i'r busnesau lleol – geiriau ac ymadroddion Cymraeg, cydweithio â Menter Iaith Sir Benfro – cynnal gweithgareddau yn y gymuned ar y cyd, creu rheolau di-gyfaddawd ar gyfer staff a disgyblion.<br>• Sicrhau bod patrymau iaith yn cael eu drilio yn rheolaidd.<br>• Sicrhau bod gan disgyblion RADY mynediad at gweithgareddau allgyrsiol i hybu'r Gymraeg –Aelodaeth o'r Urdd, Clwb ar ôl ysgol<br>• Datblygu system gwobrwyo yn seiliedig ar Siarad Cymraeg yn naturiol ar draws yr Ysgol.<br>• Cynllunio – ffocws ardal leol a Chymraeg yn rhan o'r themau.<br>• Defnyddio ddulliau Pie Corbett yn rheolaidd<br>• Gweithio ar y cyd i rannu arfer dda er mwyn sicrhau cefnogaeth cadarn i bob aelod o staff ac i bob disgybl.<br>• Aelodau o staff i fynychu hyfforddiant perthnasol e.e JJ yn cymryd rhan mewn "Cwrs Uwch Ar lein"<br>• Cynnig gwersi "Cymraeg yn y Cartref" i rieni, dosbarthu holiadur er mwyn casglu barn yn gyntaf.<br>• Gweithgareddau monitro tymhorol.<br>• Monitro effaith y gweithgareddau uchod<br><br>**Llanychllwydog**<br>**Darparu cyfleoedd o ansawdd uchel i bob disgybl ddefnyddio, datblygu ac ymgorffori eu medrau ysgrifennu mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd**<br>• Casglu tystiolaeth fel gwaelodlin – tasgau oer – bl 2-6<br>• Ymuno a'r prosiect "Writing Revolution".<br>• Creu cynllun ysgrifennu am y flwyddyn addysgiadol<br>• Cynnal ymarferion ysgrifennu yn ddyddiol<br>• Defnyddio adnoddau addas i adeiladu stamina yn y CS<br>• Cyflwyno gweithgareddau sillafu a dictation er mwyn cyflwyno Saesneg yn CA2 a dablygu hyder, llif a chywirdeb.<br>• Cynllunio tasgau ar gyfer yr ardaloedd allanol yn reolaidd<br>• Sicrhau bod tasgau ysgrifennu traws cwricwlaidd yn bodoli'n bythefnosol.<br>• Adolygu a diwygio polisi llaw ysgrifen yr Ysgol.<br>• Creu holiadur er mwyn casglu barn y disgyblion am ysgrifennu<br>• Sicrhau cefnogaeth digonol ar gyfer disgyblion bregus/plant RADY trwy drefnu cefnogaeth<br>• Craffu ar waith pob hanner tymor, llyfrau iaith a thema<br>• Gweithgareddau monitro tymhorol.<br>• Monitro effaith y gweithgareddau uchod | **1. Puncheston**<br>**To provide high quality opportunities for all pupils to use, develop and incorporate their oral skills in Welsh in a variety of situations**<br>• Further develop the principles of the Language Charter to consistently promote the Welsh language across the School. Activities to include: regular rewards, Idiom of the Month, Welsh Visitors, Welsh Music, Shwmae Day - organise a joint activity as a Federation- Welsh Crew to organise, share information about the work of the Language Charter with parents and Governors - purpose and actions, Update Mural showing action steps, our aims and photos of events to promote Welshness, language Charter corner in each class to celebrate the band of the month etc, create a sentence of the week for parents, create challenges of the month as a Federation celebrate significant days - Waldo, Shwmae, St. David's Day, Saint Dwynwen's Day etc., hold coffee mornings and a chat every half term for the community with the children leading, create a booklet for parents and for local businesses - words and Welsh expressions, collaboration with Menter Iaith to arrange activities in the community together, create non-negotiable rules for staff and pupils.<br>• Ensure that language patterns are drilled regularly.<br>• Ensure that RADY pupils have access to extracurricular activities to promote the Welsh language – Membership of the Urdd, Club after school clubs<br>• Develop a reward system based on speaking Welsh naturally across the School.<br>• Planning to include a local area focus as part of the themes.<br>• Use Pie Corbett's methods regularly<br>• Work together to share good practice in order to ensure sufficient support for all members of staff and for all pupils.<br>• Members of staff to attend relevant training e.g. JJ taking part in an "Advanced Online Course"<br>• Offer "Welsh at Home" lessons to parents, distribute a questionnaire in order to gather opinions first.<br>• Termly monitoring activities.<br>• Monitor the impact of the above activities<br><br>**Llanychllwydog**<br>**To provide high quality opportunities for all pupils to use, develop and incorporate their writing skills in a variety of situations**<br>• Gather evidence as a baseline – cold tasks – yrs 2-6<br>• Join the "Writing Revolution" project.<br>• Create a writing plan for the educational year<br>• Carry out writing exercises on a daily basis<br>• Use suitable resources to build stamina in the FP<br>• Introduce spelling and dictation activities in order to introduce English in KS2 and develop confidence, flow and accuracy.<br>• Plan tasks for the external areas regularly<br>• Ensure that cross curricular writing tasks take place fortnightly.<br>• Review and revise the School's handwriting policy.<br>• Create a questionnaire in order to collect the pupils' opinion about writing<br>• Ensure adequate support for vulnerable pupils/RADY children by organising support and intervention<br>• Undertake book scrutiny each half term, language and theme books<br>• Termly monitoring activities.<br>• Monitor the impact of the above activities |
| **2. Gwella medrau cyfrifo disgyblion, gan ganolbwyntio ar wella gwybodaeth pob disgybl o'u tablau lluosi.**<br>• Cynnal dadansoddiad o'r Profion Cenedlaethol, gosod targedau heriol.<br>• Pwyllgor Lles a C.J i sefydlu a rhedeg siop ffrwythau er mwyn hybu sgiliau cyfrifo disgyblion (Casmael)<br>• Sefydlu Clwb Mathemateg wythnosol, targedu grwpiau penodol<br>• Trefnu a chynnal sesiynau mathemateg pen o leia 3 gwaith yr wythnos, yn ogystal ag wythnos rhifedd er mwyn cyfoethogi sgiliau cyfrifo , gan gynnwys sesiwn i rieni.<br>• Gwneud defnydd o J2Blast ac RM Maths yn y sesiynau pen.<br>• Creu amgylchedd ysgol sy'n llawn rhifedd/heriau cyfrifo, gan gynnwys wal rhif weithredol ym mhob ystafell ddosbarth<br>• Chwilio am gyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio sgiliau cyfrifo ar draws y cwricwlwm ac i gefnogi profiadau darluniadwy, concrit ac haniaethol.<br>• Targedu plant RADY. Trefnu cefnogaeth mewn grwpiau ymyrraeth tymor byr/tymor hir ar gyfer plant ADY/RADY/FSM ac yn y blaen.<br>• Sicrhau fod digon o adnoddau ar gael<br>• Parhau i wneud defnydd o Adnoddau White Rose<br>• Cynllunio gweithgareddau cyfrifo cyfoethog sydd yn cymryd lle yn y dosbarth ac yn yr ardaloedd allanol yn aml.<br>• Trefnu sesiynau tymhorol i ysgolion y ffederasiwn manteisio ar safleoedd eu gilydd.<br>• Disgyblion i gynllunio a chreu gemau bwrdd er mwyn datblygu, herio ac ymarfer eu sgiliau cyfrifo<br>• Gweithgareddau monitro tymhorol ar gyfer rhanddeiliaid, ffocws – datblygu hyfedrwydd mewn dulliau cyfrifo ar draws y camau cynnydd. | **2. To improve pupils' calculation skills, focusing on improving each pupil's knowledge of their multiplication tables.**<br>• Carry out an analysis of the National Tests, set challenging targets.<br>• Welfare Committee and C.J to establish and run a fruit shop in order to promote pupils' calculation skills (Casmael)<br>• Set up a weekly Maths Club, targeting specific groups<br>• Organise and hold mental maths sessions at least 3 times a week, as well as a numeracy week in order to enrich calculation skills, including a session for parents.<br>• Make use of J2Blast and RM Maths in the mental maths sessions.<br>• Create a school environment full of numeracy/calculation challenges, including an active number wall in each classroom<br>• Look for additional opportunities to use numeracy skills across the curriculum and to support pictorial, concrete and abstract experiences.<br>• Target RADY children. Organise support in short-term/long-term intervention groups for ALN/RADY/FSM children and so on.<br>• Ensure that sufficient resources are available<br>• Continue to make use of White Rose Resources<br>• Plan rich calculation activities to take place in the classroom and outside areas.<br>• Organise termly sessions for the federation's schools to take advantage of each other's sites.<br>• Pupils to plan and create board games in order to develop, challenge and practise their calculation skills<br>• Termly monitoring activities for stakeholders, focus – developing proficiency in calculation methods across the stages of progression. |

| | |
|---|---|
| **3.Datblygu systemau a strategaethau effeithiol i gefnogi lles a chynhwysiant staff a disgyblion y ffederasiwn.**<br>• Dadansoddi data holiadur ELSA/HAPPEN er mwyn sefydlu gwaelodlin, tracio unigolion a sicrhau ymyrraeth<br>• Sicrhau sylw priodol ar gyfer plant RADY<br>• Dadansoddi data presenoldeb. Targedu unigolion sydd yn achosi consyrn. Gweinyddes, llywodraethwraig a swyddogion lles i gwrdd yn fisol i drafod data presenoldeb y dosbarthiadau. Anfon llythyron i fusnesau lleol er mwyn creu banc o adnoddau i wobrwyo gwelliannau mewn presenoldeb<br>• Dosbarthiadau i greu systemau perthnasol ac addas fel ffordd o glocio mewn a thracio teimladau'r disgyblion yn ddyddiol, gan gynnwys plant RADY, ymateb yn slic i anhawsterau/gofidion gyda ymyrraeth ELSA<br>• Trefnu sesiynau min nos pellach gyda Kelly Davies er mwyn miniogi'r ffocws ar les ar draws y ffederasiwn. Sicrhau cyfleoedd i drafod lles staff, i rannu syniadau ar sut i hwyluso ein gwaith. Gweinyddu holiadur SHRN.<br>• Adolygu ac adnewyddu'r polisiau Diogelu, hyfforddiant ar gyfer yr holl staff 2.9.24<br>• Trefnu wythnos lles<br>• Apwyntio Llysgenhadon efydd/Bydis i fod yn gyfrifol am offer chwaraeon a threfnu gweithgareddau ac amserlen amser chwarae. Cynnal trafodaethau ar sut i wella llefydd chwarae'r ysgolion a sut i annog disgyblion i symud a chadw'n heini.<br>• Dosbarthiadau i drefnu amser cylch yn rheolaidd fel ffordd o rannu gofidion ac adeiladu hunan hyder unigolion<br>• Sicrhau bod lles yn cael ei addysgu'n gyffredinnol a'i ymgymffori yn y cwricwlwm pob dydd.<br>• Sicrhau darpariaeth priodol ar gyfer unigolion a grwpiau o ddysgwyr penodol ALN/FSM/RADY/Bechgyn.<br>• Gwneud defnydd o hyfforddiant, adnoddau a strategaethau TIS, Think Equal, Emotion Coaching, Empathy Lab<br>• Ail sefydlu amrywiaeth o glybiau, sicrhau mynediad/trafnidiaeth i bawb gan gynnwys plant RADY | **3. Develop effective systems and strategies to support the welbeing and inclusion of the federation's staff and pupils.**<br>• Analyse ELSA/HAPPEN questionnaire data in order to establish a baseline, track individuals and plan interventions<br>• Ensure appropriate support for RADY children<br>• Analyse attendance data. Target individuals who cause concern. Admin, governor and attendance officers to meet monthly to discuss class attendance data. Send letters to local businesses in order to create a bank of resources to reward improvements in attendance<br>• Classes to create relevant and suitable systems as a way of clocking in and tracking the pupils' feelings on a daily basis, including RADY children, responding swiftly to difficulties/concerns with ELSA's intervention<br>• Organise further twilight sessions with Kelly Davies in order to sharpen the focus on wellbeing across the federation. Ensure opportunities to discuss staff welfare, to share ideas on how to develop our work. Take part in SHRN survey.<br>• Review and renew the Safeguarding policies, training for all staff 2.9.24<br>• Organise a wellbeing week<br>• Appoint bronze Ambassadors/Buddies to be responsible for sports equipment, organise activities and a playtime timetable. Hold discussions on how to improve the schools' playgrounds and how to encourage pupils to move and keep fit.<br>• Classes to organise circle time regularly as a way of sharing worries and building individuals' self-confidence<br>• Ensure that well-being is generally taught and incorporated into the curriculum every day.<br>• Ensure appropriate provision for individuals and groups of specific ALN/FSM/RADY/Boy learners.<br>• Make use of TIS training, resources and strategies, Think Equal, Emotion Coaching, Empathy Lab<br>• Re-establish a variety of clubs, ensuring access/transport for everyone including RADY children |
| 4. **Sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion datblygu eu sgiliau digidol.**<br>• Uwch sgilio staff yr Ysgolion - Gweinyddu a dadansoddi holiadur/awdit er mwyn casglu barn yr athrawon a barn y disgyblion am eu hyder ynglyn a'u sgiliau digidol. Rhannu arferion da o ran gwaith digidol ar draws y Ffederasiwn. Creu proffil o ran gwaith digidol. Rhannu sgiliau/gweithgareddau digidol – pawb yn ymwybodol beth a ddisgwylir a beth y dylai pob blwyddyn gyflawni. Staff gyfan i dderbyn hyfforddiant min nos ar gyfer defnyddio Adobe ac i fynychu Digi Meet.<br>• Creu awdit o ba adnoddau digidol sydd gennym<br>• Ail drefnu ffeiliau'r disgyblion<br>• Symud tuag at ymateb i waith digidol y disgyblion yn digidol<br>• Mewngofnodi i Hwb – plant Blwyddyn 2 i 6 i fewngofnodi yn annibynnol<br>• Dewiniaid Digidol i gynorthwyo plant i ddysgu.<br>• Staff i wneud defnydd o Codiau QR fel rhan o arddangosfeydd<br>• Arweinwyr Digidol a'r staff i barhau i gyflawni hunanwerthusiad 360 o waith digidol yr Ysgolion.<br>• Cynlluniau gwersi yn dangos tystiolaeth gref o weithgareddau digidol.<br>• Ethol Dewiniaid Digidol newydd – creu pamffled/murlun yn annog defnyddio rhyngrwyd yn ddiogel. Monitro defnydd o adnoddau digidol.<br>• Cynnal noson e-ddiogelwch i rieni a phlant<br>• Sicrhau systemau effeithiol i gynnig mynediad llawn i ddisgyblion MATh, RADY ac ADY | **4. Ensure valuable opportunities for the pupils to develop their digital skills.**<br>• Up skilling for School staff - Administration and analysis of a questionnaire/audit in order to collect the opinion of staff and pupils about their confidence regarding their digital skills. Share good practice in digital work across the Federation. Create a profile of digital work. Share digital skills/activities so that everyone is aware of what is expected and what each year should achieve. All staff to receive twilight training on Adobe and to attend a Digi Meet.<br>• Create an audit of what digital resources we have<br>• Rearrange the pupils' files<br>• Move towards responding to the pupils' digital work digitally<br>• Logging in to Hwb - Year 2 to 6 children to log in independently<br>• Digital Wizards to help children learn.<br>• Staff to make use of QR Codes as part of displays<br>• Digital Leaders and staff to continue to carry out a 360 self-evaluation of the Schools' digital work.<br>• Lesson plans show strong evidence of digital activities.<br>• Elect new Digital Wizards – create a pamphlet/mural encouraging safe internet use. Monitor use of digital resources.<br>• Hold an e-safety evening for parents and children<br>• Ensure effective systems to offer full access to MAT, RADY and ALN pupils |
| **5. Gwella'r cynllunio ar gyfer CG a M er mwyn sicrhau ymrediad cyfoethog ac eang o brofiadau.**<br>• Cynnal awdit o beth sydd mewn lle yn barod<br>• Mynychu hyfforddiant gan swyddogion Partneriaeth<br>• Trefnu sesiwn min nos gyda Lucy Harries YBG<br>• Astudio Maes Llafur Cytunedig Sir Benfro – adolygu ein cynlluniau er mwyn cwrdd a gofynion y cynllun<br>• Sicrhau ymwelwyr ac ymweliadau pwrpasol bob tymor a thrafodaeth am achlysur crefyddol pob hanner tymor er mwyn ehangu profiadau'r disgyblion.<br>• Trefnu hyfforddiant gan Jennifer Harding Richards. Edrych ar esiamplau o arfer dda<br>• Cynnal dathliad o waith CG a M | **5. Improve the planning for RVE in order to ensure a rich and varied range of experiences.**<br>• Conduct an audit of what is already in place<br>• Attend training by Partneriaeth officers<br>• Arrange a twilight session with Lucy Harries YBG<br>• Study the Pembrokeshire Agreed Syllabus - review our plans in order to meet the requirements of the document<br>• Ensure purposeful visitors and visits every term and a discussion about a religious occasion every half term in order to broaden the pupils' learning experiences.<br>• Organise follow up training by Jennifer Harding Richards. Look at examples of good practice<br>• Hold a celebration of RVE work |